COFNODION CYFARFOD CYDBWYLLGOR AMLOSGFAA LLANGRALLO A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR DDYDD GWENER, 5 MEDI 2025 AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd G John– Cadeirydd

E L P Caparros
P Davies
S J Griffiths

Presennol yn Rhithwir

H T Bennett
H Griffiths
JC Spanswick
C Stallard
B Stephens

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Nimi Chandrasena | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Cymorth |
| Sam Coombs | Rheolwr Cyllid – Rheolaeth Ariannol, Cau a Systemau |
| Joanna Hamilton | Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth |
| Dean Jones | Cyfrifydd -Ariannol |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – y Gwasanaethau Democrataidd |

## 67. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 5 Medi 2025 |

## 68. Datganiadau o Fuddiannau

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 5 Medi 2025 |

**69. Cymeradwyo'r Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor Amlosgfa Llangrallo a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2025 fel cofnod gwir a chywir |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 5 Medi 2025 |

**70. Gwobr y Faner Werdd**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth adroddiad yn hysbysu'r Cydbwyllgor am gais llwyddiannus yr Amlosgfa am Wobr y Faner Werdd ar gyfer 2025, sef yr 16eg blwyddyn yn olynol i'r wobr gael ei chyflawni. Mae'r Wobr yn feincnod rhyngwladol cydnabyddedig ar gyfer mannau gwyrdd sy'n cael eu rheoli'n dda.<br><br>Llongyfarchodd Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor y staff ar eu gwaith caled a'u hymrwymiad i gynnal y safonau uchel sy'n ofynnol i ennill y wobr. Diolchwyd yn arbennig i staff y tiroedd am eu gwaith rhagorol, a welwyd yn ystod ymweliad diweddar gan Aelodau'r Pwyllgor.<br><br>PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad, a chyfleu llongyfarchiadau'r Pwyllgor i'r holl staff dan sylw. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 5 Medi 2025 |

**71. Archwiliad Mewnol Amlosgfa Llangrallo**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth adroddiad i hysbysu'r Cyd-bwyllgor am ganfyddiadau archwiliad mewnol diweddar o'r Amlosgfa. Cynhaliwyd yr archwiliad fel |

| | |
|---|---|
| | rhan o gynllun archwilio mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2025-26 ac roedd yn cwmpasu'r flwyddyn ariannol 2024-25.<br><br>Dychwelodd yr archwiliad y lefel uchaf o sicrwydd, "Sicrwydd Sylweddol," heb unrhyw feysydd wedi cael eu nodi ar gyfer gwella. Cadarnhaodd hyn fodolaeth system gadarn o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.<br><br>Fe wnaeth aelodau'r Pwyllgor ganmol Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaeth a'i thîm am y canlyniad archwilio rhagorol, oedd yn adlewyrchu'r safonau uchel o reolaeth a rheolaeth ariannol yn yr Amlosgfa.<br><br>PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 5 Medi 2025 |

## 72. Estyniad Llys y Blodau

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth adroddiad oedd yn hysbysu'r Cyd-bwyllgor am erthygl ddiweddar a gyhoeddwyd yn 'Touchstone', cyfnodolyn Cymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru. Ysgrifennwyd yr erthygl, oedd yn dwyn y teitl 'Parch i'r Ymadawedig', ynghylch estyniad newydd Llys y Blodau ac roedd yn canmol yn fawr ei ddyluniad a'i berthynas â phensaernïaeth wreiddiol yr Amlosgfa.<br><br>Nododd y Pwyllgor fod yr erthygl yn canmol y ffordd yr oedd yr estyniad newydd, a ddyluniwyd gan y pensaer Jonathan Adams, yn ategu'r adeilad gwreiddiol o 1970 ac yn darparu lle gwasgaru cymdeithasol yr oedd ei wir angen.<br><br>Gofynnodd Aelod a oedd Amlosgfa Llangrallo wedi cael ei chyflwyno ar gyfer unrhyw wobrau pensaernïol cenedlaethol. Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaeth ei bod wedi cael ei chyflwyno i gystadleuaeth ledled y DU, er nad oedd y canlyniad yn hysbys eto.<br><br>PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 5 Medi 2025 |

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

## 73. Datganiad Monitro Refeniw 1 Ebrill 2025 i 30 Mehefin 2025 a Diweddariad Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol 2024-25

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Cyfrifydd – Rheolaeth Ariannol, Cau a Systemau adroddiad ar yr incwm a'r gwariant ar gyfer chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2025-26, ynghyd â’r alldro terfynol a ragdybid. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad ar y Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol ar gyfer 2024-25.<br><br>Rhagamcan y gwarged cyllidebol ar gyfer 2025-26 yw £42,000, fydd yn cynyddu'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael gan yr Amlosgfa. Mae'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2024-25 wedi cael ei chyflwyno i Archwilio Cymru a disgwylir iddi gael ei llofnodi erbyn diwedd y flwyddyn.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cyd-bwyllgor yn nodi:<br><br>1. Yr incwm a'r gwariant ar gyfer chwarter cyntaf 2025-26 a'r alldro terfynol a ragdybid.<br><br>2. Y sefyllfa mewn perthynas ag archwiliad y Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol ar gyfer 2024-25. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 5 Medi 2025 |

## 74. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 5 Medi 2025 |

I wylio dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon os gwelwch yn dda.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:30.

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**